Beth yw fy risg o gael canser y prostad?

1 mewn 8

Yn y DU, caiff tua un o bob wyth dyn ganser y prostad rywbryd yn ystod ei fywyd.

Canser y prostad yw'r canser mwyaf cyffredin ymhlith dynion yn y DU.

Dros 50 oed

Mae canser y prostad yn effeithio ar ddynion dros 50 oed yn bennaf, a **bydd eich risg yn cynyddu wrth ichi heneiddio.** Oedran cyfartalog dynion y canfyddir fod ganddynt ganser y prostad yw 70-74 oed.

Hanes teuluol a geneteg

2.5x

Rydych **ddwywaith a hanner** yn fwy tebygol o gael canser y prostad os yw eich tad neu eich brawd wedi cael diagnosis ohono, o'i gymharu â dyn sydd heb unrhyw berthnasau wedi'u heffeithio.

Gallai eich risg o ganser y prostad gynyddu os oes gennych berthnasau agos sydd â chanser y fron - os yw'r achosion hynny o ganser y fron yn gysylltiedig â namau yn y genynnau BRCA1 neu BRCA2.

Ethnigrwydd

Mae dynion duon yn fwy tebygol o gael canser y prostad nag unrhyw ddynion eraill. Yn y DU, caiff tua 1 o bob 4 dyn du ganser y prostad rywbryd yn ystod ei fywyd.

PROSTATE CANCER UK

Siaradwch â'n Nyrsys Arbenigol
0800 074 8383
prostatecanceruk.org

2358
Prostate Cancer UK is a registered charity in England and Wales (1005541) and in Scotland (SC039332). A company limited by guarantee registered number 2653887 (England and Wales). VAT 905 9415 18.
© Prostate Cancer UK January 2013. To be reviewed January 2015